



# ADRODDIAD PROSIECT GRANT 2020-2021



**MANYLION Y PROSIECT:**

**Enw'r Sefydliad Arweiniol:**

Mudiad Meithrin (MM)

**Manylion Cyswllt y Sefydliad Arweiniol:**

Dr Gwenllïan Lansdown Davies, Prif Weithredwr, Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1PD

**Enwau'r Partneriaid:**

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCCKC)

Blynyddoedd Cynnar Cymru

Mudiad Meithrin (MM)

Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru)

Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY Cymru)

**Teitl y Prosiect:**

CWLWM: Childcare in Wales Learning and Working Mutually

**Cyfnod Adrodd:**

1.4.2020 – 31.3.2021

**Swm y Grant a Dderbyniwyd ar gyfer y cyfnod 1.4.2020 - 31.3.2021:**

£1,634,410 - am 12 mis

£800, 000 + £439,838 = £1,239,838 – cyllid ychwanegol

## **CYNNWYS:**

<b>1.</b>	<b>Cefndir</b>	<b>4</b>
<b>2.</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>5</b>
<b>3.</b>	<b>Amcanion, Targedau a Chyflawniadau Cwllwm</b>	<b>7</b>

## 1. CEFNDIR

Mae Cwlwm yn tynnu ynghyd y pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth dwyieithog integredig sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ar draws Cymru yn unol â dull 'system-gyfan' Llywodraeth Cymru.

Mae Cwlwm - prosiect a arweinir gan Mudiad Meithrin mewn partneriaeth â Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, NDNA Cymru, PACEY Cymru a Blynyddoedd Cynnar Cymru (Wales PPA yn flaenorol) - yn tynnu ynghyd y gallu, ar sail cyfoeth o brofiad, i fynd i'r afael â materion yn y sector Gofal Plant a Gwaith Chwarae. Mae'r materion hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, cynaliadwyedd, datblygu'r gweithlu a bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant, yn enwedig yng nghyswllt gofal plant/chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg a darpariaeth mewn ardaloedd gwledig. Trwy gydweithio mae'r prosiect yn llwyddo i ganfod atebion arloesol i gyfleoedd chwarae a gofal plant hyblyg a gofal cofleidiol, er mwyn diwallu anghenion rhieni a theuluoedd ym mhob rhan o Gymru.

Mae Cwlwm yn cynnig dull amlasiantaeth integredig a dwyieithog o ddatblygu, cefnogi, cynghori a hyfforddi. Mae'r dull cydlynus a strategol hwn o weithredu yn sicrhau y ceir cysondeb o ran ansawdd ac arbedion effeithlonrwydd o ran darparu cymorth ac arweiniad ac mae'n cyflwyno atebion arloesol i ddiwallu anghenion lleol.

### Mae Cwlwm:

- yn gweithio ar **lefel Cymru gyfan** i gynnig cymorth (gan gynnwys cymorth busnes), arweiniad a chyngor i leoliadau gofal plant a gwaith chwarae, gyda'r nod o gynnal darpariaeth.
- yn archwilio anghenion **datblygu'r gweithlu** gofal plant a gwaith chwarae ac yn gweithio ar y cyd i ddarparu cyfleoedd i ddiwallu anghenion y gweithlu hwnnw o ran hyfforddiant.
- yn **adnabod bylchau** yn y ddarpariaeth gofal plant a gwaith chwarae ar draws Cymru ac yn dod i hyd i atebion i'r bylchau hynny, gan gynnwys atebion arloesol yng nghyswllt y ddarpariaeth mewn **ardaloedd gwledig, tldi a'r Gymraeg**.
- yn cydweithio i ddod o hyd i'r atebion gorau posibl ar gyfer **gofal plant hyblyg** mewn ardal benodol.
- yn adolygu heriau ac yn dod i hyd i **atebion** i'r heriau hynny drwy gydweithio.
- yn **cynrychioli'r** sector gofal plant ar bwyllgorau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ymwneud â gofal plant a chwarae.
- yn sicrhau **ansawdd cyson ac arbedion effeithlonrwydd** yng nghyswllt cymorth, arweiniad ac atebion i heriau trwy gyfarfodydd partneriaeth reolaidd.
- yn cydweithio i **chwilio am gyllid** i wella'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i'r sector gofal plant a gwaith
- chwarae.
- yn **cydweithio** ag awdurdodau lleol a gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd i sicrhau bod teuluoedd yng Nghymru yn elwa o'r ffaith bod modd iddynt gael gofal plant a chyfleoedd chwarae sy'n fforddiadwy, yn gynaliadwy ac o ansawdd da.

## 2. CYFLWYNIAD

Ers sefydlu'r bartneriaeth yn 2014 mae Cwlwm wedi creu a datblygu perthynas gweithiol er mwyn cyflawni amcanion dros blant a theuluoedd yng Nghymru. Profodd 2020-21 yn gyfnod anodd a heriol i'r sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae oherwydd Covid-19. Yn ystod y pandemig, bu'n rhaid i bob partner addasu ei ddulliau gweithio a gweithredu yn sylweddol gan atgyfnerthu partneriaeth waith rhagorol Cwlwm. Yn ystod y flwyddyn ymgysylltodd partneriaid Cwlwm yn sylweddol â Llywodraeth Cymru, gan weithio yn ddiflino gyda nhw i adfer y sector o effaith Covid-19. Arweiniodd hyn at osod targedau Covid-19 ychwanegol ond unwaith yn rhagor dangosodd hyn gallu Cwlwm i weithio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddi-baid i sicrhau bod digonedd o gymorth ar gael i'r sector yn ystod cyfnod anrhagweladwy iawn a llawn straen.

Cafodd Covid-19 rywfaint o effaith ar ffocws y targedau gwreiddiol ar gyfer 2020-21 yn enwedig o ran methodoleg. Fodd bynnag, llwyddodd Cwlwm i ganolbwyntio a chyflawni'r ddau amcan cyffredinol canlynol (er mwyn cefnogi aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau o sefydliadau partneriaeth Cwlwm), tra hefyd yn defnyddio ymagwedd 'sector gyfan' i gefnogi'r sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae yng Nghymru:

### **Amcan 1: Cefnogi a datblygu Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae o Ansawdd Da.**

Cyflawnir hyn drwy weithio yn y meysydd allweddol hyn:

- Cefnogi Busnesau yn gyffredinol ac yn arbennig o ran adferiad o effaith Covid-19 a chynaliadwyedd parhaus
- Canolbwyntio ar waith deddfwriaethol sy'n ymwneud â Gofal Plant a Chwarae, gan gynnwys datblygu'r Cynllun Nani newydd ac ymlacio dros dro i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC)
- Cynorthwyo Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu
- Cefnogi Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) gyda'r ymgyrch Gofalwn
- Lledaenu gwybodaeth i'r sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae
- Hyrwyddo 'Y Cynnig Gofal Plant'
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol
- Cyfrannu at waith sy'n ymwneud ag Arolygaeth Gofal Cymru (AGC)
- Cefnogi'r sector chwarae i ariannu mentrau llwygu yn ystod y gwyliau drwy roi cyngor ac arweiniad a hwyluso rhannu gwybodaeth

### **Amcan 2: Cefnogi gweithrediad polisïau allweddol a mentrau o fewn y sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae.**

Cyflawnir hyn drwy gyflawni gwaith yn y meysydd allweddol hyn:

- Y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
- Rhaglen 'Iaith Gwaith' y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar (ECEC)
- Cwricwlwm i Gymru
- Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Fel nodwyd yn flaenorol, defnyddiwyd ‘dull sector-gyfan’ er mwyn cyrraedd y gynulleidfa darged o weithwyr Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae, a oedd yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda:

- Llywodraeth Cymru
- Awdurdodau Lleol
- AWARE
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Busnes Cymru
- Darparwyr a rhanddeiliaid o fudiadau unigol
- Partneriaid eraill

Fel tystiolaeth i gefnogi'r dyfarniad cyllid mewn perthynas â Chonsortium Gofal Plant Cwlwm, darparodd bartneriaid adroddiadau monitro naratif chwarterol i Lywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys tystiolaeth ansoddol a meintiol i gefnogi'r meysydd gwaith a gyflawnwyd gan Cwlwm. Roedd yr Adroddiad Monitro yn cynnwys pedair rhan:

1. Gwybodaeth fonitro ar gyflawniad gwaith **unigol** y 5 mudiad yn ymwneud â thargedau a gwaith Cwlwm yn unig.
2. Gwybodaeth fonitro ar waith strategol partneriaid Cwlwm **ar y cyd** e.e. gwaith yn ymwneud â pholisi Llywodraeth Cymru.
3. Gwybodaeth am waith dyddiol partneriaid Cwlwm.
4. Gwybodaeth ar waith a gyflawnir gan bartneriaid Cwlwm, sy'n cael ei gyllido gan ffynonellau eraill e.e. grantiau sirol, cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, h.y. Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen. Roedd yr wybodaeth yma yn dangos y gwaith ychwanegol a gyflawnwyd tu hwnt i gyllid Cwlwm gan esbonio'n glir i gyllidwyr eraill sut roedd eu cyfraniadau ariannol nhw yn cyfrannu at a chyfoethogi gwaith y sector.

### 3. AMCANION, TARGEDAU A CHYFLAWNIADAU CWLWM

At ddibenion yr adroddiad hwn, mae'r wybodaeth a ddarperir o ran amcanion a chyflawniadau Cwlwm yn canolbwyntio ar waith strategol **ar y cyd** y partneriaid.

Amcan 1: Cefnogi a datblygu Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae o Ansawdd Da.	
Allbwn	Cyflawniad
<p>Cydweithio â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Busnes Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill fel rhan o Grŵp Tasg a Gorffen i ddatblygu dogfen sy'n mapio darpariaeth cymorth busnes i'r sector gofal plant a gwaith chwarae. Bydd hyn yn caniatáu i'r holl rhanddeiliaid allweddol gyfeirio darparwyr gofal plant a gwaith chwarae at y gefnogaeth berthnasol, er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth mewn lle i'w busnesau sefydlu, datblygu a thyfu'n gynaliadwy.</p>	<p>Mynychodd bartneriaid Cwlwm sawl cyfarfod o'r Grŵp Tasg a Gorffen Cefnogaeth Busnes. Yn ystod y cyfarfodydd casglwyd gwybodaeth o'r sector am faint o gefnogaeth busnes oedd ar gael, ac ar ba lefel. Roedd y wybodaeth a gasglwyd yn caniatáu i'r grŵp gorffen dogfen mapio a rhoddodd trosolwg o'r ddarpariaeth cefnogaeth busnes oedd ar gael.</p> <p>Arweiniodd y gwaith hwn at ddatblygiad tudalen we 'Busnes Cymru', bydd yn cael ei lansio yn haf 2021. Bydd y safle we yn rhoi mynediad cyflym ac effeithiol i'r sector at gefnogaeth, gan eu galluogi hwy i ddatblygu a thyfu eu busnesau'n gynaliadwy.</p>
<p>Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r argymhellion yn unol â'r adolygiad SGC, gan ddarparu arweiniad a chefnogaeth i ddarparwyr i fodloni gofynion yr SGC.</p>	<p>O ganlyniad i'r pandemig bu oediad yn y gwaith o ddatblygu argymhellion Llywodraeth Cymru yn unol â'r adolygiad SGC. Fodd bynnag, wnaeth partneriaid Cwlwm:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithio ar ddogfen ddrafft yn ymwneud â 'Covid-19 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol i Ofal Plant Rheoledig i blant hyd at 12 oed: Mehefin 30 - Medi 2020'. Darparodd Cwlwm adborth ar y cynnwys, gan amlygu pryderon/materion yn ymwneud â llacio elfennau'r SGC dros dro,</li> <li>• cefnogi Llywodraeth Cymru i ymestyn cyfnod gafodd y safonau SGC eu llacio hyd Fehefin 30 2022, a rhannu'r wybodaeth hon gyda'r sector, i helpu darparwyr rheoli'r gweithlu a heriau cymhwysedd, a darparu rhywfaint o sefydlogrwydd yn nhermau cynllunio trefniadau dros y misoedd dilynol.</li> </ul>
<p>Cefnogi Llywodraeth Cymru mewn gwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r meysydd gwaith Gofal Plant a Gwaith Chwarae, gan gynnwys datblygu'r cynllun Nanis newydd ar gyfer Cymru a'r ymgynghoriadau arfaethedig ar y Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ynghyd â diweddarau'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwys) (Cymru) 2010.</p>	<p>Ar ran Cwlwm, daliodd PACEY Cymru i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad y Cynllun Cymeradwyaeth Gwirfoddol (VAS) diwygiedig (a elwir weithiau'r cynllun Nanis). Datblygwyd a hyrwyddwyd digwyddiadau ymgynghori a threfnwyd arolwg i gywain barn y sawl ag effeithiwyd gan newidiadau i'r cynllun Nanis. Yn dilyn cysylltiad â'r sector, cyflwynodd PACEY Cymru ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynllun nanis newydd ym mis Tachwedd 2020.</p> <p>Ers rhoi'r cynllun nanis newydd ar waith mae PACEY Cymru wedi gweithio ar gynllun o ddiweddiadau i'w rhannu â'r sector fydd yn adlewyrchu'r newidiadau o 1.4.2021 ymlaen.</p> <p>Yn sgil Covid-19 ni fuodd yna ddatblygiad ymhellach mewn perthynas â'r ymgynghoriadau a chynllunnir, fodd bynnag, gwnaeth partneriaid Cwlwm gefnogi Llywodraeth Cymru yn y meysydd deddfwriaethol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygu cynnwys a phroses ar lacio'r SGC mewn cysylltiad â Covid-19,</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• canllawiau C-CAS i Lywodraeth Cymru ar ariannu plant bregus/plant gweithwyr allweddol yn ystod Covid-19,</li> <li>• datblygu Mesurau Diogelu o fewn lleoliadau gofal plant,</li> <li>• arweiniad ar brofi ac olrhain cysylltiadau,</li> <li>• ailagor y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru,</li> <li>• Cynllun Rheoli Addysg a Gofal Plant.</li> </ul>
<p>Cefnogi AGC gyda datblygiad pellach o'r systemau ar-lein a gweithio gydag AGC i gefnogi cysondeb yn nhermau rheoleiddiad, cofrestriad ac arolygiad.</p>	<p>Trwy gydol y flwyddyn, parhaodd partneriaid Cwlwm i gefnogi datblygiad a hyrwyddo defnydd gwasanaethau ar-lein, ynghyd â gwaith ehangach AGC. Roedd hyn yn allweddol yn ystod yr argyfwng Covid-19. Dyma rai enghreifftiau o'r gwaith a wneir ganddynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gofyn i AGC ddiweddarau gwybodaeth ar ei wefan yn ymwneud â'r Cynllun Cymeradwyaeth Gwirfoddol (VAS),</li> <li>• sicrhau bod darparwyr yn glir ar y broses ymgeisio ar gyfer datgymhwysiad y SGC, cau dros dro a hysbysiadau ailagor,</li> <li>• holi sut fyddai ymweliadau arolygu rhithwir yn cael eu cynnal,</li> <li>• rhannu cyfathrebiadau AGC, diweddariadau ac arweiniad i ymgeiswyr a darparwyr mewn ymateb i Covid-19,</li> <li>• cyfathrebu ac adrodd llwyddiannau a heriau AGC Ar-lein ac RRI i AGC,</li> <li>• datblygu <i>'Top Tips to Remember for your CIW Registered Childcare Setting'</i> p'un ai bod ar agor neu ar gau yn ystod yr argyfwng Covid-19,</li> <li>• codi pryderon ynghylch chwilio'r cyfeirlyfr gofal plant a chwarae AGC,</li> <li>• trafod effeithiau Clybiau Gweithgareddau Gwyliau (a rhedir o dan y gorchymyn eithriadau) ar y sector gofal plant,</li> <li>• awgrymu newidiadau i gwestiynau SASS ar ddarpariaeth gwyliau, at y dyfodol,</li> <li>• datblygu canllawiau i Glybiau ar gofrestru ar-lein, rhannu adnoddau 'Addressing the Barrier', adnabod canfyddiadau cyffredin yn nhermau galw annigonol,</li> <li>• ceisio eglurhad ar ymagwedd AGC mewn perthnasedd â phrofi llif unffordd (LFD) a'r effaith ar raddau/allbynnau arolygiadau lleoliadau,</li> <li>• atgoffa lleoliadau o'r angen i gwblhau'r Adolygiad Ansawdd y Gofal</li> <li>• cefnogodd a darparodd PACEY Cymru adborth ar yr Arweiniad Diogelu Tân i ofalwyr plant, er mwyn cefnogi cysondeb yn nhermau RRI.</li> </ul> <p>Dros y misoedd diwethaf mae partneriaid Cwlwm wedi mynychu amryw o gyfarfodydd efo AGC i herio a chynnig materion a datrysiadau.</p>
<p>Hybu a chodi ymwybyddiaeth o gymwysterau GPCDD, gan gynnwys cymwysterau cyfrwng Cymraeg, y rhaglen prentisiaeth a CaLI o fewn y darpar weithlu, ac annog datblygiad sgiliau iaith Gymraeg ar draws y sector (mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (CDCG)).</p>	<p>Trwy gydol y flwyddyn mae partneriaid Cwlwm wedi mynychu cyfarfodydd QSAG AGC a chyfarfodydd y Rhwydwaith Blynyddoedd Cynnar, a chyfrannu fel y ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• trafod dulliau asesu amgen arfaethedig,</li> <li>• at ddatblygiad adnodd Cymwysterau ar Dudalen,</li> <li>• at ddatblygiad Fframwaith Hyfforddiant Gorfodol,</li> <li>• at hyrwyddo a recriwtio dysgwyr CaLI a phrentisiaid safonol, gan gynnwys y Rhaglen Cymhelliad i Gyflogwyr Prentisiaid</li> <li>• At ddatblygiad 'Covid-19 Student Placement Guide' gydag AGC.</li> </ul>



	<p>Mae'r holl bartneriaid yn parhau i weithio gyda'r CDGC i wella sgiliau iaith Gymraeg ar draws y sector. Dyma rai enghreifftiau o'r gwaith a gwnaed:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu llyfrgell, gan ddod â'r holl adnoddau Cymraeg sy'n bodoli eisoes at ei gilydd mewn un porth,</li> <li>• rhannu adnoddau perthnasol, thematig, pwrpasol,</li> <li>• hybu bodolaeth Camau drwy ymgysylltu â'r sector ac annog cyflogwyr (gan gynnwys gofalwyr plant) i fanteisio ar yr hyfforddiant, e.e. paratoi astudiaethau achos yn rhannu profiadau dysgwyr sydd wedi elwa o'r hyfforddiant.</li> </ul>
<p>Cefnogi Gofal Cymdeithasol Cymru gyda'r ymgyrch 'Gofalwn/We Care', i gynnwys cynlluniau, gwaith effaith ac ymgysylltu amlasiantaethol.</p>	<p>Mynychodd partneriaid Cwllwm cyfarfodydd gydag AGC i ddatblygu a hyrwyddo ymgyrch 'Gofalwn/We Care'. Pwrpas yr ymgyrch oedd dangos bod gwaith gofal plant a chwarae yn yrfa fuddiol, ac i ddweud 'Diolch' i'r holl bobl sy'n gweithio yn y sector. Cyfrannodd partneriaid Cwllwm i'r ymgyrch drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• darparu fideos o blant a rhieni yn diolch i staff am eu gwaith,</li> <li>• rhannu'r ymgyrch drwy'r holl sianeli'r cyfryngau cymdeithasol</li> </ul> <p>Drwy gydol y flwyddyn mae partneriaid Cwllwm wedi parhau i fynychu'r cyfarfodydd 'Gofalwn/WeCare', lle maen nhw wedi cyfrannu at syniadau ar gyfer ymgyrchoedd recriwtio newydd. Rhennir manylion yr ymgyrchoedd hyn yn rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag yn ein newyddlenni tymhorol.</p> <p>Cefnogodd Clybiau Plant Kids' Clubs ymgyrch 'Gofalwn/WeCare' i sicrhau bod rolau gwaith chwarae yn gynwysedig yn rhan o'r pecynnau 'Cardiau Gyrfa'.</p>
<p>Gweithio gyda SkillsActive a phartneriaid eraill i gefnogi'r sector Gwaith Chwarae.</p>	<p>Am i Skills Active (SA) parhau yn anweithredol, daliodd PETC Cymru i barhau i gynrychioli'r sector ac i gytuno ar ofynion y cymwysterau gwaith chwarae. Yn ystod y flwyddyn wnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs gwrdd â Llywodraeth Cymru a Chwarae Cymru i drafod rôl SA yn y dyfodol, ac i archwilio'r posibiliad o Gyngor Sgiliau amgen.</p> <p>Gwnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithio gydag Agored Cymru i ddatblygu dulliau asesu dysgwyr o bell ar gyfer Sgiliau Hanfodol o fewn y cymwysterau Gwaith Chwarae,</li> <li>• gweithio gyda darparwyr hyfforddiant allanol i asesu'r risg i ddysgwyr er mwyn penderfynu pwy allai dderbyn cefnogaeth wyneb-yn-wyneb,</li> <li>• pwysleisio'r angen i adolygu negeseuon cymysg am chwarae a dewisir yn rhydd o fewn y fframwaith anwytho sy'n gysylltiedig â chraidd y CCPLD,</li> <li>• cyfaddawdu ar orhirio dyddiad targed I gyflawni cymhwysterau gwaith chwarae tan fis Medi 2022.</li> </ul>
<p>Gweithio gyda'r cyrff dyfarnu a Chwarae Cymru i sicrhau caiff y cymwysterau Gwaith Chwarae presennol eu diweddarau, a bod y Wobr 'Trawsnewid o'r Blynyddoedd Cynnar i Waith Chwarae' yn cael ei hail-fframio yn erbyn GPCDD.</p>	<p>Ar ran Cwllwm, gwnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ysgrifennu at GPCDD yn amlinellu'r angen i'r holl gymwysterau gwaith chwarae cael eu diweddarau yn unol â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol,</li> <li>• mynychu cyfarfodydd QSAG, ac awgrymu na ddylai cynnwys llythrennedd digidol yn rhan o gyflawniad Prentisiaeth Gwaith Chwarae,</li> <li>• mynychu pump cyfarfod i adolygu'r Wobr 'Trawsnewid i Waith Chwarae (o'r Blynyddoedd Cynnar)' yn erbyn cymwysterau gofal plant, addysg a gwaith chwarae Lefel 3,</li> </ul>

	<p>gan weithio gyda GPCDD, AGC, Bwrdd Chwarae Agored Gogledd Iwerddon a Meynell Walters (Cyfarwyddwr Playwork Development and Training CIC). Mae'r gwaith yn parhau, a gobeithiem lansio ym mis Medi.</p>
<p>Cefnogi adolygiad y dirwedd chwarae yng Nghymru.</p>	<p>Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a phartneriaid Cwlwm wedi datblygu adnoddau i hyrwyddo chwarae yn ystod y cyfnod clo (yn cynnwys newyddlen a chynnwys a rhennir ar y cyfryngau cymdeithasol, megis 'Clwb Cylch' Mudiad Meithrin). Yn ogystal, gwnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• llwyddo i godi ymwybyddiaeth o chwarae gyda bocs gweithgareddau 'helfa drysor' yn rhan o'r ymgyrch rhyngweithiol Diwrnod Chwarae Cenedlaethol,</li> <li>• parhau i ddefnyddio #showusyourplay ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn amlygu pwysigrwydd chwarae, a thrwy lythyrau/astudiaethau achos i Gyfarwyddwyr Addysg ac eraill,</li> <li>• arwain cyflwyniad ar effaith Covid-19 ar chwarae a Gwaith Chwarae o fewn Clybiau Gofal Plant Ôl Ysgol, yn rhan o'r Adolygiad Chwarae,</li> <li>• ymateb i argymhellion Adolygiad y Gweinidog o Dirwedd Chwarae, yn unigol ac ar ran Clybiau a Cwlwm,</li> <li>• mynychu 5 gweithdy thematig a chyfarfodydd llawn y grwpiau llywio i gefnogi 'ailgychwyn' Adolygiad y Gweinidog o'r Dirwedd Chwarae.</li> </ul>
<p>Hyrwyddo a lledaenu gwybodaeth i ddarparwyr trwy ein e-newyddlen/cyfryngau cymdeithasol/gwefan i sicrhau bod y sector yn cael gwybodaeth lawn am ddatblygiadau i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Strategaethau Cenedlaethol</li> <li>• Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru (mewn perthynas â grantiau cyfalaf y dyfodol a'r holl ardaloedd polisi perthnasol)</li> <li>• Yr holl wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r Sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae er enghraifft</li> </ul>	<p>Profodd Covid-19 yn gyfnod anodd a brawychus i'r sector, fodd bynnag wnaeth partneriaid Cwlwm ymateb i'r heriau a gweithio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn rhagweithiol i sicrhau y diweddarwyd y sector gofal plant a gwaith chwarae yn llawn, gyda'r holl wybodaeth gyfredol ynglŷn â'r gefnogaeth gyllidol, busnes a gweithredol oedd ar gael iddyn nhw.</p> <p>Dyma rai enghreifftiau o'n gwaith:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynnal cyfarfodydd strategol, lefel uchel, yn ddyddiol, drwy fideo cynadledda, cyfathrebu drwy e-brifio, negeseuon WhatsApp, e-bost a galwadau ffôn i drafod sefyllfa oedd yn newid yn gyflym,</li> <li>• darparu ystod eang o gefnogaeth, arweiniad a chynghor i'r sector, ar y cyd ac yn unigol, drwy sianeli'r cyfryngau cymdeithasol, safleoedd we, cyfeirio, e-bost a ffôn. Cynhyrchodd a darparodd Cwlwm wybodaeth oedd yn glir, yn gryno ac yn dryloyw,</li> <li>• brifio'r cyfryngau a phartneriaid yn y FSB a CBI Cymru ar faterion yn ymwneud â materion gofal plant,</li> <li>• darparu templedi polisi, enghreifftiau arfer gorau, canllawiau, ymateb i gwestiynau cyffredin, llythyrau draft, dogfennau ar argaeledd grantiau a <a href="#">newyddlenni</a> oedd yn cefnogi'r sector gyda phenderfyniadau gweithredol, busnes a chyllidol allweddol,</li> <li>• gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a rhandeiliad eraill i sicrhau y clywir ac ymatebir i lais y sector. Trwy lythyrau a chyfarfodydd, cododd Cwlwm bryderon yn ffurfiol gyda Gweinidogion.</li> </ul>
<p>Codi ymwybyddiaeth / dealltwriaeth o bwysigrwydd rôl gofal plant a chwarae wrth wireddu gweledigaeth Cymraeg 2050 ar draws holl allbynnau Cwlwm, fel ein bod yn gweithio tuag at brif-ffrydio darpariaeth</p>	<p>Trwy gydol y flwyddyn wnaed y gwaith canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• trafodaethau strategol a gweithredol gyda phartneriaid Blynyddoedd Cynnar Cymru a Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, ac i ddatblygu darpariaethau newydd o dan faner</li> </ul>

<p>cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog ar draws y sector gyfan.</p>	<p><i>'Sefydlu a Symud'</i> Mudiad Meithrin (SaS), fydd yn cynnig gofal dydd llawn gydag un pwyllgor,</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwnaed nifer o gyflwyniadau yn hyrwyddo gwaith 'SaS' i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg, Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg, a Chynhadledd Ymchwil Prifysgol Abertawe,</li> <li>• meithrin gan holl bartneriaid Cwllwm fel ffordd ychwanegol o greu'r galw am addysg a gofal cyfrwng Cymraeg,</li> <li>• cafwyd trafodaethau gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Cholegau Addysg Bellach i godi ymwybyddiaeth ac i bwysleisio'r pwysigrwydd o ennill cymwysterau a derbyn hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg,</li> <li>• cyhoeddodd Mudiad Meithrin ei fanifesto sy'n cyfeirio at weledigaeth Cymraeg 2050 a'r pwysigrwydd o sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn rhan allweddol o'r sector Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae.</li> </ul>
<p><b>Cyllid Ychwanegol (£800,000): Cefnogi'r Sector Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae, o ran adferiad o effaith Covid-19 a chynaliadwyedd parhaus</b></p>	
<p>Cefnogi datblygiad arweiniad, adnoddau, hyfforddiant a deunyddiau codi ymwybyddiaeth ar gyfer y sector Blynnyddoedd Cynnar sy'n ymwneud â'r Ddeddf ADY, a'r Cod a rheoliadau a wneir o dan y ddeddf.</p>	<p>Wrth ddatblygu'r Ddeddf a Chod ADY mynychodd cynrychiolwyr Cwllwm cyfarfodydd a arweinir gan yr Arweiniadau Trawsffurfio. Cafodd gweithredoedd unai eu delio â nhw, neu eu bwydo'n ôl i Cwllwm gael eu hystyried. Cynhaliwyd cyfarfodydd ychwanegol gydag Arweinydd ADY Llywodraeth Cymru dros yr haf. Rhennir diweddariadau ffurfiol gan Lywodraeth Cymru gyda Cwllwm ac Aelodau Sefydliadol.</p>
<p>Cefnogi'r Arweiniadau Trawsffurfio ADY gyda gweithrediad yr elfen Blynnyddoedd Cynnar o'r 'Cynlluniau Gweithredu Rhanbarthol' yr ADY.</p>	<p>Lle'n bosib, mynychodd cynrychiolwyr Cwllwm cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Arweiniadau Trawsffurfio. Defnyddiwyd y mewnwelediad hwn i rannu gwybodaeth dros ffiniau Consortia am yr ymagweddau a phrosesau hyfforddi a gweithredu cynlluniau ADY. Cyflwynwyd diweddariadau i Cwllwm gan yr Arweiniadau Trawsffurfio. Y llynedd, perodd newidiadau staffio o fewn y pedwar grŵp consortia heriau yn nhermau cysondeb.</p> <p>Yn dilyn cyfarfod gyda'r Arweinydd Trawsffurfiol ADY, cytunodd partneriaid Cwllwm i gynorthwyo adran ADY mewn unrhyw ffordd y gallent, ac i rannu gwybodaeth berthnasol gyda'r sector ar ran yr adran.</p>
<p>Gweithio gyda'r GDCG i hwyluso cyrsiau 'Iaith Gwaith' ar draws y sector Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae (ariannir y gwaith gan £190,000 ychwanegol o nawdd).</p>	<p>Gweithiodd partneriaid Cwllwm gyda'r GDCG, a mapiwyd adnoddau Cwllwm yn erbyn unedau iaith a datblygwyd gan y Ganolfan. Mae'r Ganolfan yn datblygu platfform digidol fydd yn gartref i'r cwrs, adnoddau ac unrhyw wybodaeth berthnasol i'r dysgwyr. Hyrwyddwyd y cwrs astudio-unigol ar-lein gan bartneriaid Cwllwm; mae dyddiad cychwyn eto i'w gadarnhau. Cafwyd ymateb da i'r ymgyrch recriwtio, ac mae yna gryn gefnogaeth i'r Ganolfan ac i'r dysgwyr. Mae partneriaid Cwllwm yn parhau'n ymroddedig i hyrwyddo datblygiad yr iaith Gymraeg o fewn y sector.</p>
<p>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynrychioli'r sector mewn perthynas â GAPC, Cwricwllwm i Gymru a'r Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).</p>	<p>Mynychodd a chyfranodd partneriaid Cwllwm y Grŵp Tasg a Gorffen GAPC er mwyn cynhyrchu fframwaith cendlaethol o safon i Gymru. Darparodd partneriaid unigol cynnwys ysgrifenedig i'r fframwaith GAPC arfaethedig, yn ogystal â darparu adborth ar ddraftiau blaenorol.</p> <p>Ymatebodd partneriaid Cwllwm i'r ymgyngoriad ar Fil Cwricwllwm i Gymru a chyflwynwyd tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ym mis Medi 2020. Ymatebodd partneriaid Cwllwm perthnasol yn strategol i'r gwaith ar y Bil Cwricwllwm I Gymru trwy ymateb i holiadur LIC; dosbarthwyd holiaduron i aelodau a</p>

	<p>rhandeiliaid a mynychodd partneriaid cyfarfodydd gyda swyddogion LIC i hysbysebu eu safbwyntiau sefydliadol.</p> <p>Ar ran Cwlwm, ysgrifennodd Maggie Kelly o Blynnyddoedd Cynnar Cymru erthygl i <a href="#">'Nursery World'</a> ar rôl sefydliadau gofal plant Cymreig wrth gefnogi rhieni cyn i'r newidiadau i'r Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) ddod i rym. Yn ogystal â hyn, darparwyd adborth i LIC gan bartneriaid Cwlwm ar y 'llwybrau' arfaethedig i adrodd pryderon am niwed i blentyn.</p>
<p><b>Refeniw Ychwanegol (£439,838): Cefnogi'r Sector Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae, o ran adferiad o effaith Covid-19 a chynaliadwyedd parhaus.</b></p>	
<p>Hwyluso'r gwaith o gynhyrchu adnoddau i helpu i oresgyn heriau'r sector sydd wedi dod i'r amlwg drwy Covid-19.</p>	<p>Gweithiodd partneriaid Cwlwm ar y cyd i gynhyrchu adnoddau rhithwir, digidol a phapur pwrpasol a diwygiwyd adnoddau presennol i gwmpasu lluo o bynciau'n ymwneud â Covid-19, e.e.:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cymorth adfer a chynaliadwyedd mewn perthynas â Covid-19,</li> <li>• chwarae yn yr awyr agored a'i bwysigrwydd mewn perthynas â Covid-19,</li> <li>• GDPR a Covid-19,</li> <li>• Adnoddau Dynol, Cyfraith Cyflogaeth, a heriau sy'n ymwneud â Covid-19',</li> <li>• rheoliadau cyllid a Covid-19,</li> <li>• diweddarwyd polisiau a gweithdrefnau.</li> </ul> <p>Estynnodd partneriaid Cwlwm allan at aelodau a rhai nad oeddent yn aelodau ac mewn sgwrs â 'Chwarae Cymru' drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy'r holl sianeli arferol.</p>
<p>Datblygu'r gweithle a darparu hyfforddiant ar heriau presennol a newydd Covid-19.</p>	<p>Gweithiodd partneriaid Cwlwm ar y cyd i gynnig ystod ehangach o gymorth ar-lein drwy rannu mynediad i weminarau. Roedd enghreifftiau o hyfforddiant yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• goresgyn heriau Covid-19,</li> <li>• mynd i'r afael â lles meddyliol ac emosiynol (gydag ymarferwyr a chwyselwyr cymwysedig) mewn perthynas â Covid-19,</li> <li>• gweithredu materion Iechyd a Diogelwch h.y. asesiadau risg, gweithdrefnau hylendid mewn ymateb i Covid-19, darparu cymorth busnes o ganlyniad i Covid-19 a datblygu gallu'r sector o ran capasiti TG/digidol, yn enwedig yng nghydestun AGC ar-lein gan sicrhau fod y sector yn fwy abl i addasu'n gyflym i newidiadau a achoswyd gan Covid-19.</li> </ul>
<p>Hyrwyddo a lledaenu gwybodaeth i ddarparwyr er mwyn sicrhau bod y sector yn cael ei hysbysu'n llawn am ddatblygiadau a chynlluniau sy'n ymwneud â Covid-19, gan gynnwys trefniadau cloi cenedlaethol a lleol a goblygiadau i ddarparwyr gofal plant a'r cymorth ariannol sydd ar gael.</p>	<p>Trwy amrywiaeth o wasanaethau a phrosesau, a oedd yn cynnwys negeseuon e-bost, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, holiaduron ac ati, gwnaeth Cwlwm:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod gwybodaeth / canllawiau amserol, cywir a diweddaraf yn cael eu cyfleu i'r sector yn ymwneud â Covid-19, a oedd yn cynnwys canllawiau ar Fesurau Diogelu Llywodraeth Cymru, profion llif unffordd ac ati,</li> <li>• weithio gydag Awdurdodau Lleol i ledaenu gwybodaeth a chefnogi'r sector am y cyllid oedd ar gael, parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol ac ymgynghori â'r sector i bennu eu hanghenion a'u dyheadau ac i gael darlun cyflawn o'r camau sydd eu hangen i gefnogi adferiad a chynaliadwyedd parhaus ar ôl Covid-19.</li> </ul>
<p>Codi ymwybyddiaeth / dealltwriaeth o bwysigrwydd y sector blynnyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae gyda'r nod o</p>	<p>Gweithiodd partneriaid Cwlwm yn rhagweithiol i sicrhau bod amrywiaeth o ymgyrchoedd a negeseuon cysylltiadau cyhoeddus yn cael eu datblygu i:</p>

gryfhau'r sector yn ystod y cyfnod adfer a'i wneud yn fwy gwydn ar gyfer y dyfodol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• hyrwyddo gofal plant a chwarae fel cyfle gyrfa gwerth chweil drwy gydweithio â Cyngor Gofal Cymru ar heriau sy'n gysylltiedig â Covid-19,</li> <li>• hyrwyddo manteision gofal plant a chwarae o safbwynt datblygiadol, ieithyddol ac addysgeg,</li> <li>• wella'r ddealltwriaeth o bwysigrwydd sector gofal plant a chwarae'r blynyddoedd cynnar i les plant ac i adfywiad economaidd cymunedau ledled Cymru.</li> </ul>
Sicrhau bod llais y sector gofal plant a gwaith chwarae yn cael ei gynrychioli mewn trafodaethau lleol, rhanbarthol a cenedlaethol sy'n gysylltiedig â Covid-19.	Mynychodd partneriaid Cwllwm gyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod materion sy'n wynebu'r sector yn cael sylw, i lywio ymateb Llywodraeth Cymru ac i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd drwy weithio mewn partneriaeth i helpu i adfer y sector.
Hwyluso'r gallu i staff weithio gartref wedi'i waethygu gan Covid-19.	Darparodd partneriaid Cwllwm, fel sefydliadau unigol, yr offer TG angenrheidiol i sicrhau y gallai staff barhau i weithio'n effeithlon ac yn effeithiol o gartref, cefnogi parhad busnes parhaus ac ymateb i her ddigidol a achosir gan Covid-19.
Darparu cymorth ariannol drwy ychwanegu at gynlluniau grant hanesyddol, presennol sy'n cael eu defnyddio'n dda ac sy'n cefnogi'r sector.	Sicrhaodd partneriaid Cwllwm bod yr holl wybodaeth gyffredinol am grantiau a ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael i'r cyhoedd yn cael ei rhannu'n gyflym ac yn effeithlon â'r sector. Yn ogystal, sicrhaodd partneriaid Cwllwm bod cymorth ariannol arall yn cael ei ddarparu drwy ymgyrchoedd codi arian, grantiau ariannu unigol, cronfeydd brys, aelodaeth am ddim ac ati.
<b>Refeniw Ychwanegol (£439,838): Cefnogi'r Sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae, o ran adferiad o effaith Covid-19 a chynaliadwyedd parhaus.</b>	
Galluogodd yr arian refeniw ychwanegol a dderbyniwyd, i bartneriaid Cwllwm unigol:	
Mudiad Meithrin	<ul style="list-style-type: none"> <li>• cefnogi lleoliadau drwy aelodaeth am ddim i gael cyngor a chymorth o ansawdd uchel gyda phecyn perthnasol o bolisiâu ac adnoddau (sydd hefyd ar gael i'r sector ehangach drwy rannu gydag 'Aware'),</li> <li>• cefnogi gofal plant cynaliadwy o ansawdd uchel drwy benodi Swyddog Cyllid newydd i gynghori lleoliadau,</li> <li>• penodi dau swyddog prosiect llawrydd newydd i gynorthwyo gyda phrosiectau llywodraethu'r SCE,</li> <li>• penodi swyddog llawrydd i oruchwylio prosiect cynaliadwyedd model gofal plant newydd,</li> <li>• cyfrannu tuag at wefan gyfeirio bwrpasol newydd Cwllwm,</li> <li>• cynhyrchu adnodd IaD newydd ar gyfer lleoliadau trwy benodi swyddog IaD rhan-amser newydd,</li> <li>• penodi swyddog TG newydd i roi cyngor ar seilwaith, seiberddiogelwch a chymhwysedd digidol a sesiynau rhithwir mewn Cylchoedd,</li> <li>• codi proffil y sector gofal plant i'r gweithlu cyfrwng Cymraeg posibl drwy gyfrannu at swyddog cymwysterau newydd.</li> </ul>
Early Years Wales	<ul style="list-style-type: none"> <li>• cefnogi gofal plant o ansawdd uchel, gyda Swyddogion Cymorth a Chyngor Gwasanaeth pwrpasol yn gweithio'n rhanbarthol ledled Cymru, gan weithredu polisi newydd a dod o hyd i gyllid cynaliadwyedd,</li> <li>• cefnogi prosiectau llywodraethu da a SCE gyda chyngor, hyfforddiant, cymorth 1:1 pwrpasol yn ogystal â darparu cymorth i ddeall y fframwaith cyfreithiol a chydymffurfiaeth gan y Comisiwn Elusennau,</li> <li>• darparu hyfforddiant a datblygiad ar gyfer gofal plant, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio ardaloedd awyr agored; chwarae; dysgu creadigol a thechnolegau,</li> <li>• codi proffil y Gymraeg, datblygu adnoddau Cymraeg ychwanegol fel darpariaeth annibynnol wedi'i hanelu at rieni;</li> </ul>

	<p>adnoddau defnyddiol diweddaraf a oedd wedi dyddio, a digideiddio adnoddau,</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cefnogi'r gwaith o weithredu polisiau newydd a phecynnau cymorth newydd i rieni yn y cartref ar gyfer rhieni a lleoliadau.</li> </ul>
NDNA Cymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>• cefnogi cynaliadwyedd y sector, gan roi cyngor ac arweiniad ar grantiau, cyfleoedd ariannu, gweithio gydag Awdurdodau Lleol – penodi swydd Rheolwr Datblygu Rhanbarthol,</li> <li>• datblygu pecyn darparu hyfforddiant Ystafell Ddosbarth Rhithwir Byw (<i>Live Virtual Classroom</i>) ar-lein i gefnogi'r gweithlu i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi DPP oherwydd nad oes hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gael,</li> <li>• datblygu a chyflwyno ystod o gyrsiau hyfforddi a gweminarau ar-lein i sicrhau bod y gweithlu'n gallu manteisio ar gyfleoedd DPP drwy gydol y pandemig (rheoli heintiau, adfer covid, ail-agor gweminarau), hyfforddiant ystafell ddosbarth rhithwir byw (arweinyddiaeth a rheolaeth, dysgu yn yr awyr agored, a gweithgarwch corfforol),</li> <li>• datblygu adnoddau i sicrhau y gallai staff barhau i weithio o adref er mwyn darparu cymorth yn ystod y pandemig ac addasu swyddfa NDNA Cymru i ddarparu amgylchedd diogel i COVID, gan alluogi'r tîm i barhau i gefnogi'r sector,</li> <li>• gwella seilwaith TG i gefnogi llwyfannau hyfforddi ar-lein, rhannu gwybodaeth gyda'r sector a gwella'r gallu i barhau i weithio gartref trwy gyfyngiadau Covid-19, sy'n diwallu anghenion y sector,</li> <li>• cefnogi costau cyfieithu i sicrhau bod gwybodaeth a rennir gyda'r sector yn ddwyieithog,</li> <li>• gweithio gyda'r Sefydliad Polisi Addysg i nodi'r effaith y mae Covid-19 wedi ei gael ar y sector,</li> <li>• caniatáu ymrwymadau gwariant craidd sy'n gysylltiedig â chyllid, Adnoddau Dynol, TG.</li> </ul>
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs	<ul style="list-style-type: none"> <li>• gwella'r seilwaith TG i ganiatáu mudo data, gwella'r gallu i barhau i weithio gartref drwy gyfyngiadau Covid-19 a gweithredu polisi gweithlu ystwyth yn ddiogel, gan ddiwallu anghenion y sector a chyllidwyr mewn modd effeithlon, ecogyfeillgar,</li> <li>• bodloni ymrwymadau gwariant craidd ychwanegol sy'n caniatáu i anghenion y sector Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol gael eu trin ac yn effeithlon,</li> <li>• cynyddu'r capasiti staffio i ddiwallu anghenion y sector Gofal Plant Allysgol mewn ymateb i heriau sy'n ymwneud â Covid-19 a chyfyngiadau/canllawiau cysylltiedig, ac i sicrhau bod y sector yn cael ei gynrychioli o fewn polisiau a mentrau cenedlaethol,</li> <li>• bodloni'r galw cynyddol am wasanaethau cyfieithu ar adnoddau a chyfathrebu i'r Sector Gofal Allysgol er mwyn bodloni gofynion o dan Safonau'r Gymraeg a sicrhau mynediad teg at adnoddau a chymorth i siaradwyr Cymraeg a Saesneg.</li> </ul>
Pacey Cymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>• cwrdd â'r costau ar gyfer darparu hyfforddiant a chymorth cyn cofrestru a gwarchodwyr plant cofrestredig,</li> <li>• cwrdd â'r costau argraffu a chyhoeddi ychwanegol,</li> <li>• bodloni costau ymgynghori cynyddol ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â datblygu ein gwaith Amgylcheddau Dysgu Gofal Plant yn y Cartref o Ansawdd,</li> <li>• cynyddu'r capasiti staffio i ddiwallu anghenion y sector gofal plant mewn ymateb i heriau sy'n ymwneud â Covid-19 a</li> </ul>

	<p>chyfyngiadau/canllawiau cysylltiedig, a sicrhau bod y sector yn cael ei gynrychioli o fewn polisïau a mentrau cenedlaethol,</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• prynu trwyddedau i gefnogi gyda golygu/cynhyrchu fideos ac adnoddau o safon yng Nghymru,</li> <li>• bodloni ymrwymïadau gwariant craidd sy'n gysylltiedig â chyllid, Adnoddau Dynol, TG,</li> <li>• bodloni'r galw cynyddol am wasanaethau cyfieithu ar adnoddau a chyfathrebu i'r sector gofal plant er mwyn bodloni gofynion o dan Safonau'r Gymraeg a sicrhau mynediad teg at adnoddau a chymorth i siaradwyr Cymraeg a Saesneg.</li> </ul>
--	--

Hoffai partnerïaid 'Cwlwm' ddiolch i swyddogion Llywodraeth Cymru am eu cefnogaeth, eu cydweithrediad a'u cyngor yn ystod blwyddyn hynod o anodd gan nodi mai gweithio mewn partnerïaeth sy'n arwain at y canlyniadau gorau posibl i blant a'u teuluoedd (drwy'r sector).

 <p>Clybiau Plant Cymru KIDS' CLUBS</p> <p><a href="http://www.clybiauplantcymru.org">www.clybiauplantcymru.org</a></p>	 <p>mudiad meithrin arbenigwyr y blynyddoedd cynnar Welsh early years specialists</p> <p><a href="https://www.meithrin.cymru/">https://www.meithrin.cymru/</a></p>	 <p>NDNA National Day Nurseries Association *Brighter thinking for early years</p> <p><a href="https://www.ndna.org.uk/">https://www.ndna.org.uk/</a></p>
 <p>pacey   CYMRU</p> <p><a href="https://www.pacey.org.uk/">https://www.pacey.org.uk/</a></p>	 <p>cwlwm</p> <p><a href="https://www.cwlwm.org.uk/">https://www.cwlwm.org.uk/</a></p>	 <p>Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru</p> <p><a href="https://earlyyears.wales/">https://earlyyears.wales/</a></p>



# GRANT PROJECT REPORT 2020-2021





## **PROJECT DETAILS:**

### **Name of Lead Organisation:**

Mudiad Meithrin (MM)

### **Lead Organisation Contact Details:**

Dr Gwenllian Lansdown Davies, Chief Executive, Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1PD

### **Partners' Names:**

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC)

Early Years Wales

Mudiad Meithrin (MM)

National Day Nurseries Association (NDNA Cymru)

Professional Association for Childcare and Early Years Cymru (PACEY Cymru)

### **Project Title:**

CWLWM: Childcare in Wales Learning and Working Mutually

### **Reporting Period:**

1.4.2020 – 31.3.2021

### **Grant Amount Received for the period 1.4.2020 – 31.3.2021**

£1,634,410 - for 12 months

£800,000 + £439,838 = £1,239,838 – additional funding

## **CONTENTS:**

<b>1.</b>	<b>Background</b>	<b>4</b>
<b>2.</b>	<b>Introduction</b>	<b>5</b>
<b>3.</b>	<b>Cwlwm's Objectives, Targets and Achievements</b>	<b>7</b>

## 1. BACKGROUND

**Cwlwm** brings together the five leading childcare organisations in Wales to deliver a bilingual integrated service that ensures the best possible outcomes for children and families across Wales within the Welsh Government's 'whole-system' approach.

**Cwlwm**, led by Mudiad Meithrin in partnership with Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC), National Day Nurseries Association (NDNA Cymru), Professional Association for Childcare and Early Years (PACEY Cymru) and Early Years Wales brings together the ability, based on a wealth of experience, to tackle issues within the Childcare and Playwork sector. These include but are not restricted to: sustainability, workforce development and gaps in childcare provision, especially as far as Welsh-medium childcare/play and provision in rural areas are concerned. By working together, innovative solutions to flexible childcare and play opportunities, and wrap-around care to meet the needs of parents and families in all parts of Wales is achieved.

